YSGOL HAFAN Y MÔR
Heywood Lane,
Dinbych y Pysgod/ Tenby,
SA70 8BZ
☎ 01834-843248

admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk

Ysgol Hafan y Mor, Dinbych y Pysgod ysgolhafanymor.cymru @hafanymortenby

09.11.18

Annwyl rieni

Sêr yr Wythnos
Llongyfarchiadau i Lilwen, Hallie G, Geoffrey, Owen, Ivy a Lottie G am fod yn sêr yr wythnos – 09.11.18!

Gwerthu nwyddau Plant mewn Angen
Mi fydd disgyblion yr ysgol yn gwerthu nwyddau Plant mewn Angen yn ystod yr wythnos nesaf sef Tachwedd 12fed – 16eg.

Noson Gwricwlwm – 14.11.18 @ 6yh
Ar nos Fercher, Tachwedd 13eg am 6yh yn neuadd yr ysgol, byddwn yn cynnal noson gwricwlwm. Mae'r noson yn **berthnasol i bob rhiant** sydd â phlentyn yn mynychu'r ysgol. Byddwn yn trafod y cwricwlwm newydd, *'Dyfodol Llwyddiannus'* a'r newidiadau byddwn yn gweld dros y blynyddoedd nesaf o fewn addysg Cynradd ac Uwchradd. Yn ogystal â hyn bydd Mrs King, Pennaeth Cynorthwyol yr ysgol a Mr Thomas, athro blynyddoedd 4, 5, a 6 yn cyflwyno strategaethau addysgu a dysgu rydym yn defnyddio o fewn yr ysgol ac mi fyddaf i yn ail gyflwyno'r cyflwyniad, *'Hybu Ymddygiad Cadarnhaol ac Atal Bwlio'*.
Mi fydd lluniaeth ysgafn ar gael. Annogaf bob rhiant i geisio mynychu'r digwyddiad ac edrychaf ymlaen at eich croesawu ar y noson.

Diwrnod Plant mewn Angen – 16.11.18
Gofynnwn yn garedig i blant wisgo pjs a dod a chyfraniad o £1 neu'n fwy tuag at yr elusen. Hoffem gynnal sêl gacennau hefyd felly os ydych yn medru dod â chacennau i'r ysgol erbyn bore Gwener, 16.11.18 byddem ni'n dra ddiolchgar.

Cinio Plant Mewn Angen
Mi fydd bwydlen cinio ysgol yn newid ar gyfer dydd Gwener, Tachwedd 16eg er mwyn dathlu diwrnod Plant mewn Angen. Gweler poster ar dudlaen Facebook yr ysgol.

Salwch
Yn anffodus mae Mrs Hughes, dosbarth yr Harbwr i ffwrdd o'r gwaith yn sâl. Mae athrawes gyflenwi, Miss Lowri Jones yn cymryd y dosbarth yn ei habsenoldeb. Os oes unrhyw gwestiwn neu bryder gennych a wnewch chi siarad â mi neu Mr Thomas.

Derbyniadau i ysgolion Uwchradd mis Medi 2019

Rhaid gwneud ceisiadau am ysgolion uwchradd Sir Benfro gan ddefnyddio'r ffurflen gais ar-lein ar wefan Cyngor Sir Benfro (https://www.sir-benfro.gov.uk/ysgolion-a-dysgu).

Rhaid gwneud ceisiadau am ysgolion uwchradd mewn sir arall yn uniongyrchol i'r sir honno. Mae gwybodaeth ar sut i wneud cais i'r siroedd hyn i'w gweld ar eu gwefannau.

Sicrhewch eich bod wedi cwblhau eich cais erbyn y dyddiad cau sef 21 Rhagfyr, 2018.

Bydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwnnw yn cael eu hystyried yn hwyr a gallai effeithio ar p'un a ydych yn cael lle yn eich ysgol ffafriol. Rhoddir gwybod i rieni am ddyraniad lleoedd ar y dyddiad cynnig cyffredin sef 1 Mawrth 2019.

Mae rhagor o wybodaeth am y gweithdrefnau derbyn i'w gweld yn y llyfryn 'Gwybodaeth i Rieni' sydd ar gael ar wefan Cyngor Sir Benfro (https://www.sir-benfro.gov.uk/mynediad-i-ysgolion).

Siarter Iaith Gymraeg – Band y mis 'Yws Gwynedd'

Fel rhan o'n siarter iaith Gymraeg rydym yn annog y disgyblion i wrando ar gerddoriaeth Gymreig a dysgu rhai caneuon Cymraeg. Yn ystod gwasanaeth ddydd Mercher, pleidleisiodd y plant ar gyfer Yws Gwynedd. Mae Yws Gwynedd yn fand Roc Cymreig o Ogledd Cymru a enwir ar ôl ei brif ganwr, Ywain Gwynedd. Gellir canfod y caneuon ar 'You Tube' trwy ddilyn y dolenni isod * Cofiwch nad ydym yn gyfrifol am gynnwys fideos.

https://www.youtube.com/watch?v=PADjnW0cndk

https://www.youtube.com/watch?v=OZkGqUpR3lo

Byddwn hefyd yn cyflwyno idiom y mis:

Idiom yr wythnos hon yw **'Dros ben llestri'**

Diolch am eich cyd-weithrediad a'ch cefnogaeth

V Griffiths

Mrs Griffiths
Pennaeth

Wythnos yn cychwyn: 12.11.18			Week commencing: 12.11.18	
Bwletin Newyddion a Digwyddiadau			Events and News Bulletin	
Dyddiad	**Digwyddiad**		**Date**	**Event**
12 - 16 Tachwedd	**Gwerthu Nwyddau Plant mewn Angen**		12 - 16 November	**Selling Children in Need merchandise in school**
12.11.18 **Dydd Llun**	**Gwersi Ymarfer corff i ddosbarth Mrs Hughes a Mr Thomas** **Rhaid** i **bob** plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.		12.11.18 **Monday**	**PE lessons for Mrs Hughes & Mr Thomas' class** **All** pupils **must** bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
12.11.18 **Dydd Llun**	**Noson Agored Ysgol y Preseli** 5 – 7.30yh yn Ysgol y Preseli, croeso cynnes i bawb.		12.11.18 **Monday**	**Ysgol y Preseli Open Evening** from 5 – 7.30pm, a warm welcome is extended to all.
14.11.18 **Dydd Mercher**	**Clwb Cwtsh (10-11.15)** – cwrs blasu Cymraeg sy'n llawn hwyl a sbri i rieni a phlant cyn oed ysgol. Pob bore dydd Mercher am 8 wythnos.		14.11.18 **Wednesday**	**Clwb Cwtsh (10-11.15)** – is a fun-filled eight-week taster programme every Wednesday morning, focusing on speaking Welsh with pre-school aged children.
14.11.18 **Dydd Mercher**	**Mercher Mwdlyd** –Cofiwch ddillad allanol i'ch plentyn heddiw os ydynt yn nosbarth **Sêr y Môr, Cregyn neu Ynys Bŷr**		14.11.18 **Wednesday**	**Muddy Wednesday** – Please remember that your child requires outdoor clothes today if he/she is in **Sêr y Môr, Cregyn or Ynys Bŷr class**
14.11.18 **Dydd Mercher**	**Clybiau ar ôl ysgol (3.05 – 4.15yp)** Clwb Chwaraeon (Sports) – Bl. 2 Clwb Crefft – Bl. 3 + 4		14.11.18 **Wednesday**	**After school clubs (3.05 – 4.15yp)** Clwb Chwaraeon (Sports) – Yr. 2 Clwb Crefft (Craft) – Yr. 3 & 4
14.11.18 **Dydd Mercher**	**Noson Gwricwlwm am 6yh yn neuadd Ysgol Hafan y Môr** Croeso cynnes i bawb!		14.11.18 **Wednesday**	**Curricular evening @ 6pm in the school hall at Ysgol Hafan y Môr** A warm welcome is extended to all!
15.11.18 **Dydd Iau**	**Bore Iau Mwdlyd** –Cofiwch ddillad allanol i'ch plentyn heddiw os ydynt yn nosbarth **Pysgod Chwim (Mrs Griffiths)**		15.11.18 **Thursday**	**Muddy Thursday morning** – Please remember that your child requires outdoor clothes today if he/she is in **Pysgod Chwim class (Mrs Griffiths)**
15.11.18 **Dydd Iau**	**Gwersi Ymarfer corff i ddosbarth Mrs King a Mrs Walters (Bl. 1 a 2)** **Rhaid** i **bob** plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.		15.11.18 **Thursday**	**PE lessons for Mrs King & Mrs Walters' class (Year 1 & 2)** **All** pupils **must** bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
15.11.18 **Dydd Iau**	**Clwb Coginio (Cooking Club) – Bl . 5 a 6 gorffen am 4.30yp**		15.11.18 **Thursday**	**Clwb Coginio (Cooking Club) – Yrs. 5 & 6 finishes at 4.30pm**
15.11.18 **Dydd Iau**	**Noson Agored Ysgol Caer Elen** 5 – 7.30yh yn Ysgol Caer Elen, croeso cynnes i bawb.		15.11.18 **Thursday**	**Ysgol Caer Elen Open Evening** from 5 – 7.30pm, a warm welcome is extended to all.

16.11.18 **Dydd Gwener**	**Diwrnod Plant mewn Angen** Gofynnwn yn garedig i blant wisgo pjs a dod a chyfraniad o £1 neu'n fwy tuag at yr elusen. Hoffem gynnal sêl gacennau hefyd felly os ydych yn medru dod a chacennau i'r ysgol erbyn bore Gwener byddem ni'n dra ddiolchgar.		16.11.18 **Friday**	**Children in Need** We kindly ask children to wear pjs and bring a contribution of £1 or more towards the charity. We would also like to hold a cake sale. Therefore, we would welcome any donations of cakes by Friday morning. Thank you in advance for your support.
16.11.18 **Dydd Gwener**	**Gwersi Ymarfer corff i ddosbarth Mrs Phillips (Sêr y Môr) a dosbarth Mrs Griffiths (Pysgod Chwim)** **Rhaid** i **bob** plentyn yn **Sêr y Môr** ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.		16.11.18 **Friday**	**PE lessons for Mrs Phillips' class (Sêr y Môr) & Pysgod Chwim, Mrs Griffiths' class** **All** pupils in **Sêr y Môr** **must** bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
16.11.18 **Dydd Gwener**	**Gwersi nofio** i ddosbarth yr Harbwr (Mrs Hughes / Miss Jones)		16.11.18 **Friday**	**Swimming lessons** for Harbwr class (Mrs Hughes / Miss Jones)

Gwybodaeth – Information

Presenoldeb wythnos yn gorffen: 09.11.18 – 94.66% (Targed yr Ysgol: 95.1%)

Attendance week ending: 09.11.18 – 94.66% (School's attendance target: 95.1%)

Reg

Reg	Authorised Absence	Attended
Cregyn	8.57	91.43
Cychod	1.48	98.52
Pysgod Chwim	5.41	94.59
Ser Y Mor	8	92
Ynys Byr	5.71	94.29
Yr Harbwr	3.93	96.07

Mae ffigwr presenoldeb yr wythnos hon ar gyfer yr ysgol gyfan yn siomedig gan ei fod o dan darged yr ysgol.

Ffigwr presenoldeb ar gyfer disgyblion oed ysgol statudol wythnos yn diweddu 9.11.18: **95.36%** *(targed uwchlaw'r ysgol!)*

Gwybodaeth ynglŷn â dyddiadau gwyliau a diwrnodau HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion)

Gwyliau Nadolig	24.12.18 – 4.01.2019
HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion)	07.01.2019 + 08.01.2019
Hanner Tymor	25.02.2019 – 01.03.2019
HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion)	12.04.2019
Gwyliau Pasg	15.04.2019 – 26.04.2019
Gwŷl y Banc (ysgol ar gau)	06.05.2019
Hanner Tymor	27.05.2019 – 31.05.2019
HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion)	22.07.2019

GWERSI ADDYSG GORFFOROL

Noder os gwelwch yn dda, rhaid i **bob** plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.

Dosbarth Mr Thomas (Cychod) + Mrs Hughes' (Harbwr) Class -	Dydd Llun / Monday
Dosbarth Mrs King (Ynys Bŷr) + Mrs Walters (Cregyn) Class -	Dydd Iau / Thursday
Dosbarth Mrs Phillips (Sêr y Môr) Class -	Dydd Gwener / Friday
*Dosbarth Mrs Griffiths (Pysgod Chwim) -	Dydd Gwener / Friday

**Nid oes angen iddynt fod yn cit ymarfer corff ffurfiol / These pupils do not need to wear formal PE kit*

INCLEMENT WEATHER

I would like to remind all parents of the procedures for inclement weather and school closure. Updates relating to school closures or other alerts can be found on the following pages:- The Council's website at:- www.pembrokeshire.gov.uk/alerts

You can register for alerts by creating your own account by using the following web address: https://myaccount.pembrokeshire.gov.uk/

The Council's Twitter and Facebook pages will also be updated with alerts:-
www.facebook.com/PembrokeshireCountyCouncil
www.twitter.com/Pembrokeshire

Dyddiadau o flaen llaw			Future dates	
Bwletin Newyddion a Digwyddiadau			Events and News Bulletin	
Dyddiad	**Digwyddiad**		**Date**	**Event**
19.11	Nosweithiau rhieni bl. 3 + 4 – llythyron gwybodaeth i'w dilyn		19.11	Parents' evenings for yrs. 3 & 4 – further information to follow
20.11	Pelrywd yr Urdd i ferched – manylion i'w dilyn wrth Mr Thomas		20.11	Urdd Netball competition for girls – further details to follow from Mr Thomas
22.11	**Taith Thema - Nadolig Fictoraidd yn Maenor Scolton i fl. 3, 4, 5 a 6**. Bydd cyfle i'r plant ddysgu am draddodiadau ac arferion Nadolig Fictoraidd, chwarae gemau parlwr, gwylio sioe goginio Fictoraidd a chymryd rhan mewn sesiwn grefftau Nadolig Fictoraidd. Bydd pob ymweliad yn gorffen drwy ganu carolau o gwmpas y goeden Nadolig.		22.11	**Thematic Learning trip to Scolton Manor's Victorian Christmas for pupils in yrs. 3, 4, 5 & 6**. Children will get the chance to learn about Victorian Christmas traditions, play parlour games, watch a Victorian cookery demonstration and make a Victorian Christmas craft. Each visit ends with carol singing around the Christmas tree.
28.11	Gala Nofio'r Urdd bl. 3 – 6 – manylion i'w dilyn wrth Mr Thomas		28.11	Urdd Swimming Gala competition for yrs. 3 - 6 – further details to follow from Mr Thomas
3.12	Canu i'r henoed		3.12	Signing to senior citizens in the community
6.12	Cyngerdd Nadolig dosbarth Meithrin a Derbyn (Mrs Griffiths + Mrs Phillips) yn neuadd yr ysgol am 10yb		6.12	Christmas concert for Nursery & Reception (Mrs Griffiths + Mrs Phillips) pupils @ Ysgol Hafan y Mor 10am

6.12 wedi'i gadarnhau	Eleni byddwn yn cynnal Cyngerdd Carolau a stori'r geni ar gyfer disgyblion Bl. 1 – 6. Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach i'w dilyn.		6.12 confirmed	This year we will be holding a Carol Concert and Nativity service for yrs. 1 – 6 pupils. A warm welcome is extended to all. Further information to follow.
7.12	**Gweithgareddau Hafan Cymru** – mi fydd asiantaeth Hafan Cymru yn cydweithio gyda disgyblion Bl. 2 a 6 i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o berthnasoedd iach ac hapus.		7.12	**Hafan Cymru activities** – Hafan Cymru will be working with pupils in yr. 2 & 6 to develop their understanding of positive and healthy relationships.
10.12	**Panto Pinocchio - Dosbarth Derbyn – Bl. 6** . Manylion pellach i'w dilyn		10.12	**Pinocchio pantomime – Reception – yr. 6.** Further details to follow
12.12	**Cinio Nadolig Ysgol**		12.12	**School Christmas lunch**
21.12	**Diwrnod Siwmper Nadolig -** Gofynnwn yn garedig i blant wisgo siwmperi Nadolig a dod a chyfraniad o £1 neu'n fwy tuag at yr elusen. Byddwn hefyd yn cynnal parti Nadolig ac yn cael ymwelydd arbennig i'r ysgol!		21.12	**Christmas Jumper Day** – We kindly ask that pupils wear a Christmas Jumper to school and bring a donation of £1 or more for the appeal. We will also be holding a Christmas party and a special visitor will be visiting the school!
24.12.18 – 04.01.18	**Gwyliau Nadolig**		24.12.18 – 04.01.18	**Christmas Holidays**
07.01.18 + 08.01.18	**HMS – Ysgol ar gau i ddisgyblion**		07.01.18 + 08.01.18	**INSET – School closed to all pupils**

Dyddiad newydd / New Date